

Cyngor call ar ddechrau ar eich cais

1. Wrth baratoi eich cais, peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd gan y panel didoli unrhyw wybodaeth amdanoch chi. Ceisiwch fod mor fanwl ag y bo modd - esboniwch ba sgiliau a phrofiadau sydd gennych chi y gallwch eu cyfrannu at y rôl.
2. Mae'n bwysig eich bod yn cyfeirio atoch eich hun yn eich cais - mae angen i chi werthu'r hyn rydych chi'n benodol wedi ei wneud.
3. Cofiwch gadw at y cyfanswm geiriau a nodir.
4. Gofynnir cwestiynau sy'n seiliedig ar gymhwysedd ar ein ffurflen gais. Fan hyn, fe allai fod yn ddefnyddiol i chi ymgyswddo â fframwaith cymhwysedd Swyddfa Archwilio Cymru. Nodwch y cymwyseddau sydd eu hangen ar gyfer y rôl.
5. Bydd angen i chi egluro eich ateb gydag enghreifftiau penodol. Ystyriwch ddefnyddio berfau gweithredol a fydd o gymorth i'ch cais gael fwy o effaith a gwneud argraff gref. Mae defnyddio berfau yn yr amser gorffennol hefyd yn rhoi'r teimlad eich bod wedi cwblhau neu gyflawni eich nodau. Dylech hefyd anelu at ysgrifennu'n gryno. Er enghraifft:
 - **Peidiwch â defnyddio:** Roeddwn i'n gyfrifol am drefnu rhaglen o siaradwyr.
 - **Defnyddiwch:** Trefnais raglen o siaradwyr.
6. Neilltuwch ddigon o amser ar gyfer ysgrifennu eich enghreifftiau - osgowch eu gadael tan y funud olaf.
7. Ysgrifennwch yr holl bethau rydych wedi eu gwneud yn dda yn eich swydd, mewn rolau gwirfoddol neu yn ystod eich addysg.
8. Mae'n ddefnyddiol cyfeirio at adroddiadau arfarnu perfformiad blaenorol neu adborth gan diwtoriaid ar gyfer hyn.
9. Ar gyfer pob un o'r pethau hyn, nodwch sut wnaethoch chi gyflawni'r hyn a wnaethoch, pa sgiliau ac ymddygiad wnaethoch chi eu harddangos?
10. Casglwch eich tystiolaeth at ei gilydd a'i dadansoddi cyn i chi ddechrau ysgrifennu enghreifftiau ar gyfer y cwestiynau cymhwysedd - mae'n debyg y bydd gennych fwy o dystiolaeth na'r disgwyl.
11. Rhannwch eich tystiolaeth a'ch enghreifftiau gyda rhywun a fydd yn rhoi adborth adeiladol.
12. Dewiswch yr enghreifftiau mwyaf pwerus – sefyllfaoedd ymdrechgar/heriol.
13. Cymerwch amser wrth ddechrau ysgrifennu eich enghreifftiau cymhwysedd, yn ddelfrydol gan ddefnyddio'r dechneg STAR. Bydd ysgrifennu enghreifftiau da yn cymryd sawl diwrnod i'w datblygu - nid mater o oriau. Am ragor o wybodaeth, cymerwch olwg ar y canllawiau **Mynd i'r afael â chwestiynau ynghylch cymhwysedd**.
14. 14. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyfeirio at sut wnaethoch chi oresgyn problemau a rhwystrau. Beth wnaethoch chi ei ddysgu o'r profiad?

15. Disgrifiwch eich meddyliau, eich gweithredoedd a'ch teimladau yn hytrach na dim ond disgrifio'r hyn a ddigwyddodd.